

Teithiau Byr



Llanychaer/Coed Trellwyn

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 2.4 milltir (3.8 km)

Cludiant cyhoeddus: Dim.

Cyfeirnod map: SM999352

Cymeriad: Coetir, caeau ag anifeiliaid, peth graddiannau serth, peth cerdded ar heolydd bach.

O Llanychaer

3 sticil.

Cymerwch yr heol dros y bont a'i dilyn i fyny'r tyle. Wrth gyffordd (junction) yr heol, trowch i'r dde ac i'r dde eto trwy'r giât. Dilynwch y trac, sy'n mynd i'r chwith heibio i fferm (chwiliwch am saethau melyn). Pan ddaw'r trac i ben, cadwch at ymyl y cae gyda'r clawdd ar y dde, ewch trwy fwch i mewn i'r cae nesaf, gan gadw'n syth ymlaen, ac anelwch am y sticil yn y clawdd gyferbyn. Croeswch y sticil a chroeswch y cae yn groeslinol (diagonally), gan anelu am faen hir yng nghanol y cae ac yn syth i'r dde o'r llinell o goed gyferbyn. Dilynwch y llwybr i lawr i'r coed ac yn agos at y gwaelod chwiliwch am fynegbost ar y dde. Trowch i'r dde'n siarp, dilynwch y llwybr at y sticil, croeswch y sticil a dilynwch y llwybr trwy'r coed, yna ar ymyl y coetir. Wrth y mynegbost, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr i lawr i'r heol. Wrth yr heol, trowch i'r chwith i Llanychaer.

O faes parcio Allt Clun

5 sticil.

Trowch i'r dde arno i'r heol, croeswch y bont, yna trowch i'r chwith rhwng tai (chwiliwch am y marciwr llwybr o'ch blaen). Dilynwch y trac, cadwch at y dde arno i'r llwybr wrth y tŷ nesaf, yna'n syth dros sticil a dilynwch y llwybr. Wrth y mynegbost, ar y dde, trowch i'r dde, yna i'r chwith i mewn i'r coed a dilynwch y llwybr i fyny.

Croeswch y sticil ar y top a chroeswch y cae yn groeslinol (diagonally).

Parhewch ymlaen, ond cadwch ychydig i'r dde, yna chwiliwch am sticil yng nghornel gyferbyn y cae a maen hir yng nghanol y cae.

Croeswch y sticil a chadwch i'r chwith, gan anelu am y bwch yn y clawdd gyferbyn, yna cadwch at y llwybr wrth ymyl y cae, gyda'r clawdd ar y chwith, sy'n arwain at drac. Dilynwch y trac, gan droi i'r dde heibio i'r fferm a dilynwch at y giât wrth ymyl yr heol. Trowch i'r chwith arno i'r heol ac i'r chwith eto a dilynwch yr heol i lawr y tyle. Ychydig cyn cyrraedd y bont, trowch i'r chwith arno i'r trac, sy'n troi'n llwybr, ar ymyl y coetir. Wrth y mynegbost trowch i'r dde, dilynwch y llwybr i mewn i'r coed ac ar ymyl y coetir. Wrth y mynegbost ar y chwith, trowch i'r dde. Croeswch y sticil dilynwch y llwybr ar ochr coetir y cae, yna croeswch y stici yn ôl i'r llwybr caeedig ai ddilyn yn ôl i'r heol. Wrth yr heol, trowch i'r dde i'r maes parcio.